mochyn daear

Disgrifiad o'r Rhywogaeth

Mae'r mochyn daear *(Meles meles)* yn aelod o'r ffawna Prydeinig sy'n hawdd ei adnabod ar unwaith, gyda phen du a gwyn streipiog a chorff llwyd swmpus.

Ceir moch daear lliw tywod mewn band ar draws gogledd ddwyrain Cymru. Mae moch daear yn tyfu hyd at fetr o hyd ac mae'r gwrywod yn pwyso hyd at 14cg. Mae'r mochyn daear yn perthyn i deulu'r Mustelidae, grwp o famaliaid sydd â chwarren mwsg, lle defnyddir y chwarenlif ar gyfer cyfathrebu. Dosberthir moch daear Prydain fel cigysyddion ond mewn gwirionedd maent yn hollysol gyda deiet amrywiol o gnau, aeron, grawnfwydydd pryfaid, chwilod a mamaliaid bach yn ogystal â'u prif ddeiet o bryfaid genwai.

Statws Cyfreithiol

Mae'r deddfau hyn yn eich diogelu'n gyfreithiol i weryd moch daear a'u setia.

- *Deddf Creulondeb i Anifeiliaid 1911*
- *Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981*
- *Deddf Gwarchod Moch Daear 1992*
- *Deddf Creulondeb i Famaliaid Gwyllt 1996*

Mochyn daear *Llun drwy garedigrwydd Steve Jackson*

Defnyddir amrywiaeth o gynefinoedd ond rhoddir blaenoriaeth i goetiroedd brodorol a pherthlysoedd wedi'u hamgylchynu gan borfa gyda phridd wedi'i draenio'n dda. Gall prif setiau gael o 1 i oddeutu 40 o fynedfeydd, a defnyddiwyd rhywfaint ohonynt am sawl canrif. Mae moch daear yn dyllwyr grymus (gallant adeiladu setiau newydd ar dir datblygedig felly dylai arolygon ecolegol fod yn gyfredol). Mae moch daear i'w gweld yn ystod y nos. Nid ydynt yn gaeafgysgu ond maent fel arfer yn aros islaw'r ddaear am gyfnodau hir yn ystod y gaeaf pan fo'r tywydd yn llym. Mae moch daear yn paru drwy gydol y flwyddyn ond maent yn beichiogi ar ddechrau'r gaeaf pan fo'r celloedd a ffrwythlonwyd yn flaenorol yn mewnblannu i groth yr hwch. Bydd y cenau'n cael eu geni yn bennaf ym mis Chwefror gyda dau neu dri fel arfer yn goroesi i ymddangos wyth wythnos yn ddiweddarach. Ni ddiddyfnir y cenau am rai wythnosau pellach. (Dyma'r brif reswm pam fo Cyngor Cefn Gwlad Cymru'n nodi y dylid osgoi aflonyddu moch daear yn llwyr rhwng Rhagfyr a Mehefin).

Statws Presennol a Ddosbarthiad

Y Deyrnas Unedig

Gellir dod ar draws y mochyn daear ar draws y rhan fwyaf o Brydain. Gwrth-drowyd ei ddirywiad yn y 1980au yn dilyn deddfwriaeth i'w warchod a rheolaeth well o gemegau gwenwynig fel dip golchi defaid. Amcangyfrifodd yr Arolwg Moch Daear Cenedlaethol (Cresswell et al. 1990) fod 43 000 o grwpiau cymdeithasol ar gyfer cyfanswm y boblogaeth ym Mhrydain.

Wrth ystyried bod oddeutu 6 mochyn daear aeddfed i bob grwp cymdeithasol, mae gennym oddeutu 250 000 o foch daear aeddfed ym Mhrydain. Mae'r boblogaeth yn hunanreoledig mewn perthynas â llwyth uchaf y tir (ansawdd yr ardaloedd bwydo). Nid yw ardaloedd sylweddol o iseldiroedd Prydain wedi'u hailwladychu gan foch daear hyd yma.

mochyn daear

Mae poblogaeth y DU o bwysigrwydd rhyngwladol gan fod y mochyn daear yn dirywio yn ei gynefinoedd ledled Ewrop. Dangosir pwysigrwydd y mochyn daear i'r cyhoedd drwy'r ffaith bod dros 80 o grwpiau moch daear ym Mhrydain (Ffederasiwn Genedlaethol Grwpiau Moch Daear, Rhagfyr 2001) i gyd yn gweithio tuag at warchod moch daear a'u cynefinoedd. Moch daear yw'r rhywogaeth banerlong perffaith. Mae eco-twristiaeth eisoes wedi gosod gwerth ariannol ar foch daear, ond ni ellir mesur eu gwerth cynhenid i ansawdd bywyd llawer o bobl. Mae'r mochyn daear yn rhywogaeth gryf, ar ôl goroesi llawer o gamdriniaeth; gellir defnyddio unrhyw ddirywiad fel dangosydd sy'n rhoi rhybudd llym ynghylch camreoli ein cefn gwlad.

Cymru

Amcangyfrifodd Cresswell et al (1990) fod poblogaeth moch daear cyn-paru Cymru yn 35 000. Mae moch daear yn eithaf eang yng Nghymru, heblaw am yr ardaloedd mwyaf mynyddig ac mewn ardaloedd sy'n gynefinoedd gwael neu lle mae erlyniad parhaol yn bodoli.

Wrecsam

Mae cofnodion setiau Geoffrey Spencer ar gyfer y Gymdeithas Mamaliaid yn dangos dirywiad yn y boblogaeth yn ystod y 1970au. O ganlyniad, mae cofnodion setiau moch daear Grwp Moch Daear Clwyd wedi dangos adferiad yn y boblogaeth. Fodd bynnag, mae dirwyiadau lleol yn parhau mewn rhai ardaloedd yn bennaf oherwydd erlyniad anghyfreithlon. Mae gwaith arolwg ynghyd â mesurau lleihau wedi helpu i ryddhau pwysau datblygu, er fod ffyrdd yn parhau i fod yn broblem fawr, yn enwedig lle maent yn croesi coridorau bywyd gwyllt.

Ffactorau sy'n achosi colled

- *Newidiadau mewn defnydd tir sy'n arwain at golli setiau ac ardaloedd porthiant.*
- *Rhannu coridorau bywyd gwyllt gan ffyrdd newydd.*
- *Traffig y ffyrdd, sy'n lladd oddeutu 50 000 o foch daear ym Mhrydain bob blwyddyn.*
- *Cymhellion amaethyddol i drin tir fferm ac o ganlyniad colli setiau ac eitemau bwyd tymhorol.*
- *Erledigaeth anghyfreithlon. Mae tyllu a phryfocio moch daear yn parhau o hyd, ond mae gosod magl, lampu, gwenwyno a llenwi setiau yn bryderon o bwys. Mae moch daear yn dal i gael eu llurgunio mewn maglau 'cyfreithiol'!*
- *Llygredd a gwenwyno esgeulus o 1. ddwr ffo o fiswail a silwair ffermydd 2. cemegion coedwigoedd ac amaethyddiaeth.*
- *Camddealltwriaeth ynghylch statws dicáu presennol moch daear, er na fu hwn yn fater yng Ngogledd Cymru. Bu adroddiadau anecdotaidd o unigolion yn lladd moch daear oherwydd credir bod moch daear yn trosglwyddo y dicáu buchol i wartheg. Archwiliwyd y modd o drosglwyddo'r afiechyd hwn am sawl blwyddyn a hyd heddiw ni wnaed cysylltiad â moch daear.*
- *Diraddio coedwigoedd a pherthlysoedd oherwydd bod anifeiliaid yn pori arnynt gan atal adfywiad a lleihad naturiol y coedwigoedd yn sgil arferion coedwrol gwael.*
- *Mae'r adrannau hynny o gamlas Llangollen sydd ag ochrau fertigol concrit hefyd yn ffurfio rhwystr i foch daear a bywyd gwyllt eraill sy'n eu hatal rhag dringo allan.*

Gweithrediad Cyfredol a Diweddar

Gweithred y DU/Cymru

- Mae Ffederasiwn Cenedlaethol Grwpiau Moch Daear (NFBG) Y Gymdeithas Mamaliaid, CCC a'r RSPCA i gyd yn cynhyrchu llyfrynnau ar broblemau sy'n ymwneud â moch daear.
- Comisiynodd Ymddiriedolaeth Y Bobl ar gyfer Rhywogaethau Prin "Changes in the British badger population, 1988 to 1997" ar gyfer Yr Athro Harris, Prifysgol Briste.
- Mae penodi Swyddog Bywyd Gwyllt ac Amgylcheddol a Swyddog Bywyd Gwyllt Adrannol wedi bod o fudd i fywyd gwyllt yn gyffredinol a moch daear yn benodol.

Gweithred Leol

- Mae Grwp Moch Daear Clwyd (CBG) yn monitro ceisiadau cynllunio lleol ac yn gofyn am arolygon ecolegol pan fo cofnodion setiau moch daear yn nodir angen am hyn. Mae'r Grwp yn cysylltu â swyddogion coedwigoedd i osgoi difrod esgeulus i setiau.
- Mae Grwp Moch Daear Clwyd yn cofnodi a diweddaru cofnodion setiau moch daear yng ngogledd ddwyrain Cymru'n barhaus. Rhoddir y rhain i'r Gymdeithas Mamaliaid ac maent ar gael i bob awdurdod fel bo angen, yn amodol ar gytundebau cyfrinachedd.
- Gofynna'r Grwp Moch Daear Clwyd fod mesurau lleihau yn cael eu gwneud lle'n briodol, e.e. setiau artiffisial i ddisodli setiau a gollwyd a thwnelau moch daear a ffensys lle mae ffyrdd newydd yn croesi llwybrau moch daear sydd wedi'u defnyddio'n dda. Darparwyd y mesurau hyn yn llwyddiannus iawn heblaw am lle na chydymffurfiwyd â manylion penodol.

Amcanion a Nodau

1	***Amddiffyn a gwella poblogaethau moch daear a'u cynefinoedd.***
2	***Lleihau'r difrod i goridorau bywyd gwyllt.***
3	***Sefydlu statws a dosbarthiad presennol moch daear.***
4	***Gwella cynefinoedd bywyd gwyllt.***

Cynefin coetir a glaswelltir i foch daear

Cysylltiadau â Chynlluniau Eraill

Cynlluniau Gweithredu Rhywogaeth Wrecsam:

- Dyfrygi

Cynlluniau Gweithredu Cynefin Wrecsam:

- Afonydd, Nentydd a Chamlesi
- Gwrychoedd
- Coedtir
- Hen Goed a Phorfeydd Coed

Cynlluniau Eraill:

- Strategaeth Cefn Gwlad CBSW
- CGBLl Cyfagos (Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Conwy, Powys, a Sir Gaer)

* i'w gyhoeddi yn 2004

Gweithredu Arfaethig gydag Asiantaethau Arweiniol

Cam gweithredu	Nodau	Partneriaid	Targed
Polisi a Deddfwriaeth			
Atal gwanhau'r ddeddfwriaeth bywyd gwyllt drwy apelio yn erbyn achosion nodedig, a fyddai'n cael effaith niweidiol ar foch daear neu'r rhai hynny sy'n ceisio ei amddiffyn.	1	FfGGMD	Cyfredol
Annog gwella cynefinoedd drwy lobïo i gefnogi grantiau'r UE ar gyfer ffermio cynaliadwy a gwarchod bywyd gwyllt, yn enwedig cysylltiadau llinellol.	1, 4	FfGGMD RSPB, GYFfBG	Cyfredol
Gwarchod a Rheoli Rhywogaethau/Safleoedd			
Sicrhau bod arolygon moch daear cyfredol digonol yn cael eu gwneud pan fo newidiadau i ddefnydd tir cynefinoedd moch daear yn cael eu cynnig.	1, 3	CBSW	Cyfredol
Gwella ansawdd cynefinoedd moch daear i wneud iawn am y golled oherwydd datblygiad.	1, 4	CBSW	Cyfredol
Lleihau'r difrod i goridorau bywyd gwyllt ar hyd cyrsiau afonydd gan sicrhau y gofynnir am bontydd yn hytrach na chylfatiau.	1, 2	CBSW, CCC, AAC, AB	2004
Annog prosiectau adfer cynefinoedd a chreu cynefinoedd.	1, 4	CBSW, AAMG	Ar gyfartaledd 1 prosiect bob blwyddyn
Chwilio am gyfleoedd i ostwng marwolaethau ar y ffordd drwy ddefnyddio tanffyrdd ac arwyddion.	1	HTRA, CBSW	Cyfredol

Gweithredu Arfaethig gydag Asiantaethau Arweiniol

Cam gweithredu	Nodau	Partneriaid	Targed
Sicrhau bod moch daear sydd wedi'u hanafu'n derbyn y gofal angenrheidiol.		GMDC, Milfeddygon	Cyfredol
Cydweithio ag awdurdodau i ddarparu llwybrau dianc i foch daear ac anifeiliaid eraill o ddyfrffyrdd gydag ochrau fertigol.	1	DP, CBSW	Cyfredol
Cynnal cysylltiadau â'r Gwasanaeth Ceidwaid Cefn Gwlad.	1, 4	CBSW, GBGTGD	Cyfredol
Lleihau erlyniad anghyfreithlon drwy gysylltu â'r cyhoedd gan gynnwys tirfeddianwyr, ciperiaid, ffermwyr, rheolwyr ystadau a gwarchodfeydd.	1, 3	YG, YC, YBGGC	Cyfredol
Cyngor			
Darparu cyngor i awdurdodau lleol ar geisiadau cynllunio a all gynnwys moch daear.	1, 2	CBSW, GMDC	Cyfredol
Darparu nodiadau cyngor ynghylch rheoli cadwraeth i dirfeddianwyr a datblygwyr.	2	CCC, FfGGMD, CBSW	
Cynnal y gyfraith sy'n ymwneud â moch daear a darparu tystion arbenigol am droseddau o dan y Ddeddf Moch Daear.	1	SCBG, FfGGMD	Cyfredol
Cyfathrebiadau a Chyhoeddusrwydd			
Codi ymwybyddiaeth o'r bygythiad parhaus o erlyniad.	1	FfGGMD, SCBG	Cyfredol
Codi ymwybyddiaeth o gadwraeth moch daear drwy gynhyrchu posteri, taflenni a datganiadau i'r wasg.	1, 3	FfGGMD	Cyfredol
Cynyddu dealltwriaeth gyhoeddus o'r berthynas rhwng moch daear a dicáu buchol ac o faterion proffil uchel eraill.	1	FfGGMD	Cyfredol
Ymchwil a Monitro			
Cynnal a diweddaru cofnodion setiau moch daear ar gardiau a thaenlenni.	1, 3	Cymdeithas Mamaliaid	Cyfredol
Monitro'r holl setiau moch daear hysbys a hawdd mynd atynt fel nad yw dyddiad yr ymweliad mwyaf diweddar cyn 1990.	1, 3	Cymdeithas Mamaliaid	Erbyn diwedd 2003
Trosi taenlenni i gronfa ddata.	3	GMDC	Erbyn 2003
Arolygon ar y cyd â'r Fenter Goedwigaeth, Tilhill a thirfeddianwyr a grwpiau eraill ar gais.	1, 3	MG, CBSW, YC, AAC	Cyfredol
Annog y cyhoedd i adrodd am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â moch daear a gwybodaeth am eu setiau.	1, 3	GMDC	Cyfredol
Hyfforddi unigolion ar gyfer gwaith maes sy'n ymwneud â moch daear.	3	GMDC	Cyfredol
Cadw cofnodion ar gyfer troseddau sy'n ymwneud â moch daear.	1	SCBG, FfGGMD	Cyfredol
Cadw cofnodion o ddamweiniau traffig y ffyrdd.	2	FfGGMD	Cyfredol

Byrfoddau **AAC**- Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru; **AB** - Asiantaeth Briffyrdd; **AAMG** - Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig; **CBSW** - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam; **DP** - Dyfrffyrdd Prydain; **FfGGMD** - Ffederasiwn Genedlaethol Grwpiau Moch Daear; **GBGTGD** - Grŵp Bywyd Gwyllt Trefol Glannau Dyfrdwy; **GMDC** - Grŵp Moch Daear Clwyd; **GYFfBG** - Grŵp Ymgynghorol Ffermio a Bywyd Gwyllt; **MG** - Menter Goedwigaeth; **RSPB** - Royal Society for the Protection of Birds; **SCBG** - Swyddog Cyswllt Bywyd Gwyllt; **YBGGC** - Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru; **YC** - Ymddiriedolaeth Coedtiroedd; **YG** - Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Gwybodaeth Bellach

Swyddog Bioamrywiaeth
Is-adran yr Amgylchedd, Adran Cynllunio,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam,
Stryt y Lampint, Blwch SP 1290,
Wrecsam, LL11 1WL.

ffôn: 01978 292019
ffacs: 01978 292502
e-bost: planning@wrexham.gov.uk
gwefan: www.wrecsam.gov.uk/cynllunio
www.badger.org.uk *(Ddim yn gysylltiedig â CBSW)*

Lluniau drwy garedigrwydd English Nature. *Awdur: Betty Lee, Grŵp Moch Daear Clwyd*

This plan is available in English. Please call 01978 292019 for a copy.

Mae'r Cynllun hon ar gael mewn print bras.
Ffoniwch 01978 292019 am eich copi.

Cynhyrchwyd gan yr Adran Gynllunio, Awst 2003